

Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd Supporting Businesses in Gwynedd



 CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 02.11.2021

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar:
<https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19>
- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on:
<https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19>

COVID-19: Cryfhau mesurau Rhybudd Lefel 0

Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru ar 29 Hydref 2021 y bydd Cymru yn aros ar Lefel Rhybudd 0, ond rhybuddiodd fod y sefyllfa'n ddifrifol oherwydd cynnydd sydyn mewn achosion coronafeirws, a chyhoeddwyd rhai mesurau ychwanegol mewn ymateb i hyn. I ddarllen y datganiad diweddaraf, ewch i:

<https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-adolygiad-o-reoliadau-diogelu-iechyd-cyfyngiadau-coronafeirws-rhif-5-11>

COVID-19: Gofynion hunanyngysu newydd

Bellach, bydd gofyn i oedolion sydd wedi'u brechu'n llawn a phlant a phobl ifanc, rhwng 5 a 17 oed, hunanyysu nes eu bod wedi cael prawf PCR negatif os bydd rhywun ar eu haelwyd yn arddangos symptomau neu'n cael prawf positif ar gyfer Covid-19. I gael y canllawiau wedi'u diweddarau, ewch i:

<https://llyw.cymru/canllawiau-hunanyysu>

Mae gwybodaeth am y cynllun ychwanegiad at dâl salwch statudol ar gyfer COVID-19 i weithwyr gofal sy'n gorfod hunanyysu neu aros i ffwrdd o'r gwaith, i ddiogelu'r bobl y maent yn gofalu amdanynt, ar gael yma:

<https://llyw.cymru/cynllun-ychwanegiad-dal-salwch-statudol-ar-gyfer-covid-19>

COVID-19: Ehangu'r defnydd o Pàs COVID y GIG

Yn amodol ar bleidlais yn y Senedd, bydd defnydd o'r Pàs COVID yn ofynnol i gael mynediad i sinemâu, theatrau a neuaddau cyngerdd o 15 Tachwedd 2021 ymlaen. Gellir lawrlwytho poster, delweddau a fideos i hyrwyddo ac esbonio Pàs COVID y GIG yma:

<https://llyw.cymru/pas-covid-y-gig-pecyn-hyrwyddo>

RHEOLIAD: Cyllideb Hydref 2021

Mae Busnes Cymru wedi crynhoi pwyntiau allweddol Cyllideb Hydref 2021 Llywodraeth y DU, ewch i:

<https://businesswales.gov.wales/cy/newyddion-blogiau/newyddion/cyllideb-hydref-2021>

DIGWYDDIAD: Sadwrn y Busnesau Bach 2021

Bydd Sadwrn y Busnesau Bach 2021 yn digwydd ar 4 Rhagfyr 2021. Mae ystod o ddefnyddiau ar gael i'ch helpu chi i gymryd rhan, ewch i:

<https://smallbusinesssaturdayuk.com>

IECHYD & DIOGELWCH: Gweithio'n ddiogel mewn mannau cyfyng

Mae cyhoeddiad 'Safe work in confined spaces' yr Awdurdod Iechyd a Diogelwch (HSE), yn esbonio'r diffiniad, yn rhoi enghreifftiau ac yn eich helpu i roi rhagofalon yn eu lle er mwyn galluogi gweithio diogel. I lawrlwytho copi am ddim, ewch i:

<https://www.hse.gov.uk/pubns/books/l101.htm>

DIGWYDDIAD: Digwyddiadau Hwb Menter Tachwedd 2021

Mae'r Hwb Menter yn cynnal nifer o weithdai am ddim, ar-lein ac mewn person, y mis yma, fydd yn ymdrin ag ystod o bynciau gan gynnwys; marchnata, cynyddu eich busnes, creu gwefan a mwy. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn:

<https://www.eventbrite.co.uk/o/enterprise-hub-m-sparc-18672473725>

CYMORTH: Cyngor Gwynedd yn hysbysebu am 'Swyddog Cefnogi Busnesau Lleol'

Er mwyn cryfhau a buddsoddi ymhellach yn y ddarpariaeth cymorth busnes bresennol, mae Cyfadran Economi a Chymuned Cyngor Gwynedd yn hysbysebu ar hyn o bryd mewn perthynas â phenodi Swyddog Cefnogi Busnesau Lleol:

<https://bit.ly/3GHoNT9>

Bydd y swydd uchod yn golygu y bydd Gwasanaeth Cefnogi Busnes Cyngor Gwynedd mewn hyd yn oed gwell sefyllfa i gefnogi ac ymateb i'r heriau sy'n wynebu'r gymuned fusnes lleol.

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19>

<https://twitter.com/BusnesGwynedd>

Rhwydwaith Busnes Gwynedd

<https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan>

<https://twitter.com/gwyneddbusnes>

Busnes Cymru

<https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/>

https://twitter.com/_busnescymru

Busnes@llandrillomenai

<https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts>

<https://twitter.com/busnesLLM>

FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

Croeso Cymru

<https://twitter.com/croesocymrubus>

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf

<https://bit.ly/3kIWPAU>

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:

E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru